Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar ddydd Mercher, Ionawr 23ain, 2008 am 7.30 p.m.

Presennol: Y Maer Cyng Richard Wallace, Y Dirprwy Faer Cyng Edward Thomas, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Ros Bellamy, Cyng Fran Murphy, Cyng Hugh Towns, Cyng Christopher Parish, Cyng Dawn Wallace
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)

Cyn y cyfarfod, cafodd y Cyngor ei annerch gan Mr Meirion Owen a Mr Sulwyn Thomas ar y trefniadau ar gyfer Treialon Cŵn Defaid y Byd 2008 i'w cynnal ym Mharc Dinefwr rhwng Medi'r 11eg a 14eg. Bydd 23 o siroedd a rhyw 240 o gystadleuwyr yn cymryd rhan. Y gobaith yw y cynhelir pared trwy'r Dref ddydd Mercher, Medi'r 10fed.

Ymddiheuriadau: Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Charlotte Leadbeater, Mr Des Davies (Swyddog Technegol)
Dymunodd y Maer Cyng Richard Wallace wellhad buan i'r Cyng Gwyn yn dilyn ei lawdriniaeth.

Materion yr Heddlu : Dywedodd y Swyddog Cynnal Cymunedol Rob Smith fod ymholiadau yn parhau yn dilyn dau ymosodiad. Mae achosion eraill yn cynnwys 1 o aflonyddu ac 1 drosedd yn ymwneud â dryll wedi'u canfod. Adroddodd ar barcio cerbydau ar hyd y palmentydd. Rhaid bod y cerbyd yn achosi rhwystr bwriadol a bod yr Heddlu yn ei weld cyn y gellir dwyn cyhuddiad. Dywedodd hefyd bod y Rhingyll Neil Jones wedi dod yn lle'r Rhingyll Paul Lewis am y tro.

Cof 244 / Ionawr/08 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Adroddodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones fod y cyfarfod cyhoeddus canlynol wedi'i alw i drafod y cynigion parthed y Neuadd Farchnad, mae rhai o'r masnachwyr wedi cyflwyno deiseb i'r Cyngor Sir yn gwrthwynebu'r cynllun. Hyd yn hyn nid yw Gwalia wedi cyflwyno cynlluniau manwl.
Dywedodd y Cynghorydd Sir Jones y byddai'r gost o osod prif gatiau a phileri oddeutu £20,000. Mae wedi gofyn i Mr Richard Workman ymweld â'r safle ac mae'n parhau i fod yn obeithiol y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn Mehefin. Hefyd adroddodd ar y cyfarfod a gynhaliwyd gyda'r Maer Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins a chynrychiolydd o'r Asiantaeth Cefnffyrdd mewn perthynas â gosod croesfan belican yn lle'r groesfan bresennol.

Cof 245 / Ionawr / 08 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ar ddydd Mercher, Rhagfyr 15fed, 2007 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cyllid Arbennig a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, Rhagfyr 5ed, 2007 fel cofnod cywir wedi cynnwys y newid canlynol :
Parthed Cof 223 / Rhagfyr/ 07 (3). – dileu £250 ar gyfer y grŵp, £100 i'r unigolyn. b) blynyddoedd dilynol – newid £350 i £400. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor yn Neuadd y Sir ddydd Mercher, Ionawr 9fed, 2008 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Fran Murphy ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor ddydd Mercher, Ionawr 9fed, 2008 fel cofnod cywir wedi cynnwys y newid canlynol :
Cof 239 / Ionawr / 08 Dylai Cyfrif Treuliau'r Maer (20.12.07) ddarllen £1,677.54 ac nid £2,677.54. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 246 / Ionawr / 08 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol
Parth Cof 223 / Rhagfyr/07 (3i) Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Mrs Griffiths, Pennaeth Ysgol Tre-gib i'w hysbysu o'r gwobrau a gytunwyd arnynt gan y Cyngor. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Chris Parish. Roedd pawb o blaid.
Parth. Cof 229 / Ionawr / 08 Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu ag Adran Gynllunio CSC er mwyn derbyn eglurhad a yw Llwynhelig o fewn ardal Tref Llandeilo o ran ystyriaethau cynllunio. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
Parth. Cof 235/Ionawr/08 (6). Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy y dylid cyfethol Julia Jones ar y Cyngor. Roedd pawb o blaid.
Yna arwyddodd Mrs Julia Jones y llw a chymryd ei lle ar y Cyngor.
Croesawyd Mrs Jones gan y Maer Cyng Richard Wallace.

Cof 247/ Ionawr /08 I Ystyried Gohebiaeth sydd angen ymateb iddi

1. Andrew Rees Swyddog Trwyddedu CSC parth. 44, Heol Rhosmaen
2. Andrew Rees Swyddog Trwyddedu CSC parth. 44, Heol Rhosmaen
3. Mr Simon Griffiths parth. 44, Heol Rhosmaen
   Cynigiwyd gan y Cyng Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace bod y Clerc yn ysgrifennu at yr adran drwyddedu er mwyn egluro sefyllfa'r Cyngor, h.y. y dylid gorffen gwerthu alcohol am 11pm ar nos Sul tan nos Iau, a 12 canol nos nos Wener a nos Sadwrn. Yr adran drwyddedu sydd i benderfynu ar yr amser addas i orffen y diodydd wedi'r amser hwn. Dymuniad y Cyngor oedd i annog mannau yfed o'r safon uchaf, fel a gynigiwyd gan yr ymgeisydd, yn y Dref.
4. CSC – goleuadau ac addurniadau'r Goeden Nadolig. Cytunwyd y dylid cyfeirio'r llythyr at y Swyddog Technegol.
5. CSC – amcangyfrifon o gostau goleuo'r llwybrau troed yn 2008. Nodwyd.
6. Lesley Rees CSC – gofynnwyd am argymhellion ar gyfer Gwobrau Merched y Flwyddyn. Nodwyd.

Cais gan Maddy Clark am gyswllt gwefan i wefan y Cyngor. Cytunwyd.

Cof 248 / Ionawr/08 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Gwybodaeth i Dwristiaid Golwg o Gymru gydag erthygl am Landeilo. Nodwyd
2. SuzannaVan Eeghen – parth cytundeb ar gyfer AIO. Nodwyd.
3. Angharad Jones, Chwarae Cymru parth. Grantiau gwirfoddoli i'r Ifanc. Nodwyd.
4. Gorchmynion rheoli cŵn LlCC. Nodwyd.
5. Un Llais Cymru – seminar ar gyflwyno Cyngor Ieuenctid 5.4.08
6. Un Llais Cymru – parth. Cyfarfod ardal 24.1.08.
7. Dŵr Cymru parth. y gwaith sydd i'w wneud yn y Dref. Adroddodd y Clerc y byddai Dŵr Cymru yn annerch y Siambr Fasnach ym mis Chwefror.

Cof 249/ Ionawr/ 08 Materion Ariannol.

1. Anfonebau i'w Talu

Morgan & Morgan (inc i'r argraffydd)	£ 90.45
CSC costau goleuo'r llwybrau troed	£ 286.34
Swyddog Technegol (prynu ffôn symudol)& £20 o arian	£ 119.99
Charles Sams (nam ar larwm y toiled)	£ 89.01

Penderfynwyd y dylid talu'r rhain. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas

2. Materion Ariannol Eraill

i) Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins bod y Swyddog Technegol yn cyfrifo'r trydan a ddefnyddir gan y goleuadau Nadolig er mwyn talu un o'r trigolion.

ii) Rhoddwyd adroddiad ar yr hysbysebion yn y rhaglen tân gwyllt, yn dangos diffyg o £315. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas bod rhestr gyflawn o fusnesau'n cael ei ddarparu ar gyfer y Pwyllgor Cyllid.

Cof 250 / Ionawr / 08 Materion Cludiant a Phriffyrdd

1. Bydd CSC yn cwblhau arolwg rhwng Ionawr a Mawrth mewn perthynas â pharcio i drigolion. Nodwyd.
2. Cafwyd trafodaeth ar y cynigion a gyflwynwyd mewn cyfarfod cyhoeddus parthed y Neuadd Farchnad. Cynigiodd y Cyng Roy Davies fod y Clerc yn ysgrifennu at y datblygwyr yn croesawu'r ffaith eu bod yn barod i ymgynghori â'r Cyngor a thrigolion. Mae'r Cyngor o'r farn bod parcio yn parhau i fod yn fater sydd angen ei ddatrys. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
   Cynigiwyd gan y Cyng Chris Parish bod y Cyngor yn gofyn i'r Cynghorydd Sir Ieuan Jones drosglwyddo pryderon y Cyngor mewn perthynas â materion parcio pan fydd yn cyflwyno deiseb y masnachwyr i'r Cyngor Sir. Eiliwyd hyn gan y Cyng Ros Bellamy.

Cof 251/ Ionawr / 08 Adroddiad y Maer.

Anfonodd y Maer Cyng Richard Wallace adroddiad o'r digwyddiadau a fynychodd ar ran y Cyngor.

Cof 252 / Ionawr/08 Adroddiad y Swyddog Technegol

Anfonodd y Swyddog Technegol adroddiad i mewn i'r Cyngor. Mae wedi cwrdd â Cambria mewn perthynas â'r ystafell archif ac argymell y dylid cwblhau'r gwaith. Mewn perthynas ag anfoneb Charles Sams am £89.01, mae Mr Davies wedi archwilio'r

man dan sylw yn Neuadd y Sir a chanfod mai lleithder oedd y broblem ac argymell y dylid ei dalu.
Mae Mr Davies wedi archwilio'r meinciau a byrddau sydd angen eu hatgyweirio.
Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy y dylai'r Swyddog Technegol chwilio am ddyfynbrisau am y gwahanol ffyrdd o gwblhau'r gwaith.

Cof 253 / Ionawr / 08 Adroddiadau Eraill.

1. Yr Is-grŵp Gweithdrefnau. Cynigiodd y Cyng Hugh Towns y dylai'r grŵp gyfethol mwy o aelodau er mwyn cwblhau'r gwaith angenrheidiol yn gynt. Cytunwyd y dylai'r grŵp hwn nawr gynnwys Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Hugh Towns, Cyng Chris Parish, Cyng Ros Bellamy a'r Maer Cyng Richard Wallace.
2. Y Wefan. Rhoddwyd caniatâd i'r Cyng Fran Murphy wneud y gwaith i ddiweddaru'r gwaith ar y safle.
3. Yr Ardd Gymunedol. Cytunwyd y byddai penderfyniad yn cael ei wneud mewn perthynas â datblygu'r ardd yng nghyfarfod o'r Cyngor Llawn ym mis Chwefror.
   Bydd y Cyngor yn ystyried cynnig y Cyng Fran Murphy a phob cynnig arall a gyflwynwyd i'r cyfarfod.
4. Dathliadau Canmlwyddiant Parc Penlan. Adroddodd y Cyng Edward Thomas ar gyfarfod diweddar gyda grwpiau o ddiddordeb. Mae'r gweithgor wedi penodi Miss Katie Bellamy fel swyddog i'r wasg/cyhoeddusrwydd i gynorthwyo gyda hyrwyddo'r digwyddiad. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu ag adran grantiau CSC i holi a oes yna unrhyw grantiau cymunedol ar gael.
   Gofynnodd y Cyng Roy Davies i'r Cyngor gydnabod yr angen am strategaeth hirdymor mewn perthynas â choed Ffawydd yn y parc.
5. Penderfynwyd y dylid ffurfio gweithgor arall i gyflwyno argymhellion i'r Cyngor yng ngoleuni penderfyniad y Cyngor i gefnogi treialon cŵn defaid y Byd ym mis Medi 2008. Bydd y canlynol yn aelodau o'r gweithgor y Maer Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Ros Bellamy a'r Clerc.

Cof 254 / Ionawr /08 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd am resymau arbennig, yn ôl penderfyniad y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns bod cynrychiolwyr y Cyngor sydd ar gyrff llywodraethol yr ysgolion yn rhoi adroddiadau chwarterol yng nghyfarfodydd y Cyngor.
Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Edward Thomas.
Roedd pawb o blaid. Cytunwyd y dylid dechrau ar yr adroddiadau hyn yng nghyfarfod mis Chwefror.
Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace bod cynrychiolwyr y Cyngor sy'n mynychu cyfarfodydd eraill hefyd yn adrodd yn ôl i'r Cyngor. Roedd pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30pm